# Teithio gan Ddysgwyr

## Dogfen Ymgynghori

**Dyddiad cyhoeddi**: **10 Ebrill 2024**

**Camau i'w cymryd:** Ymatebion erbyn **3 Gorffennaf 2024**

**Rhif ffôn**: (01656) 643 664

**Cyfeiriad e-bost**: consultation@bridgend.gov.uk

**Gwefan:** https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/ymgynghoriadau/

# Dogfen Ymgynghori: Teithio gan Ddysgwyr

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd barn a safbwyntiau ynglŷn â newidiadau posibl i drefniadau teithio disgyblion a myfyrwyr coleg a chanfod sut y bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Polisi Cludiant rhwng y Cartref ar Ysgol/Coleg yn effeithio arnoch chi a'ch teulu.

## Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori yn dechrau ar **10 Ebrill 2024** ac yn dod i ben ar **3 Gorffennaf 2024**. Gallwch ymateb neu ofyn rhagor o gwestiynau yn y ffyrdd a ganlyn:

**Rhif ffôn:** (01656) 643 664
**Cyfeiriad e-bost:** Consultation@bridgend.gov.uk
**Ar-lein:** **https://cymerwch-ranpen-y-bontarogwr.uk.engagementhq.com/home-to-school-transport**
**Trwy'r post:** Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu, Awdurdod Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB. Mae fformatau eraill ar gael ar gais.

## Diogelu data

Bydd yr wybodaeth a gyflwynwch ar y ffurflen hon yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau a wneir gan y Cabinet yn y dyfodol ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig i'r polisi cyfredol dan sylw, sef y Polisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg.

Bydd y Cyngor yn cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau cyfrinachedd ac i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Efallai y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda meysydd gwasanaeth perthnasol ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw yn unol â Pholisi Cadw Data'r Cyngor.

Mae gennych nifer o hawliau dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Hefyd, gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg a gallwch ofyn inni ddileu eich gwybodaeth bersonol ar unrhyw adeg trwy gysylltu â ni. Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn ar ein gwefan neu gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

Os byddwch yn anfodlon â'r modd yr awn ati i brosesu eich data personol, gallwch anfon cwyn at y Swyddog Diogelu Data a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol**
**Cyfeiriad e-bost:** foi@bridgend.gov.uk
**Cyfeiriad:** Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

**Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru**
2il Lawr, Tŷ Churchill
Heol Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

**Rhif ffôn.** 0330 414 6421
**Cyfeiriad e-bost:** wales@ico.org.uk

## Dogfennau cysylltiedig

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol, Mehefin 2014

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag ymgynghoriadau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu ynglŷn â sut i ymuno â’n panel Dinasyddion:

**Ewch i:** https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/ymgynghoriadau/

## Pam y mae’r awdurdod lleol yn ymgynghori ynglŷn â newidiadau arfaethedig i’r Polisi Cludiant rhwng y Cartref a’r Ysgol/Coleg?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn wynebu pwysau digyffelyb ar ei gyllideb. Golyga hyn y bydd angen lleihau’r gyllideb yn fawr dros y pedair blynedd nesaf. Ymhellach, rhagwelir y bydd y cyngor wedi gorwario swm sy’n cyfateb i £1.157M ar gludiant rhwng y cartref a’r ysgol yn 2023-24. O gofio bod y polisi hwn ymhlith y polisïau mwyaf hael yng Nghymru o safbwynt darparu cludiant i ddysgwyr, mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn cynnig arbed £792k ar gyfer 2025-26.

Mae’r awdurdod lleol yn ymfalchïo yn y gwasanaethau a ddarperir i’w ddinasyddion ac mae’n dymuno parhau i wneud cymaint â phosibl i gynorthwyo teuluoedd yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni.

Ond mae pwysau ariannol yn golygu bod yn rhaid i’r awdurdod lleol adolygu’r holl wasanaethau a ddarperir ganddo.

Rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru sicrhau eu bod yn darparu cludiant rhwng y cartref a’r ysgol pan fo’r gyfraith yn pennu bod ganddynt ddyletswydd i wneud hynny. Hefyd, gall awdurdodau lleol ddarparu cludiant yn ôl eu disgresiwn.

Mae polisi presennol yr awdurdod lleol mewn perthynas â Chludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg yn nodi sut y mae'r awdurdod lleol yn darparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a rhwng y cartref a'r coleg.

Daeth polisi presennol yr awdurdod lleol i rym ar 1 Medi 2016. Yn awr, mae'r awdurdod lleol yn awyddus i glywed barn a safbwyntiau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â newidiadau arfaethedig i'r polisi presennol.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd barn a safbwyntiau ynglŷn â newidiadau posibl yn y trefniadau teithio ar gyfer disgyblion ysgol a myfyrwyr sy'n mynychu colegau addysg bellach.

Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a fydd modd iddo barhau i ddarparu'r cymorth presennol y tu hwnt i'r gofynion a bennir yn y gyfraith.

Bydd yr adolygiad hwn o bolisi presennol yr awdurdod lleol ar Gludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol/Coleg yn cyfrannu at strategaeth gyllidebol ehangach yr awdurdod lleol trwy sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau.

Mae dwy elfen yn perthyn i gludiant rhwng y cartref a'r ysgol, sef:

## Elfen Statudol

- Y trefniadau y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol eu gwneud yn ôl y gyfraith er mwyn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr cymwys.

## Elfen yn ôl disgresiwn

- Y trefniadau y mae'r awdurdod lleol yn dewis eu gwneud.

Ar hyn o bryd, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol ar gyfer y canlynol:

- disgyblion mewn addysg gynradd statudol (5-11 oed) sy'n byw ddwy filltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf, neu pan na fo llwybrau cerdded addas ar gael, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r pellter a nodir;
- disgyblion mewn addysg uwchradd statudol (11-16 oed) sy'n byw dair milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf, neu pan na fo llwybrau cerdded addas ar gael, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r pellter a nodir;
- disgyblion sy'n mynychu sefydliad darpariaeth arbennig ac na allant gerdded i'r ysgol oherwydd eu hangen dysgu ychwanegol / addysg arbennig neu oherwydd eu hanabledd, neu pan na fo llwybrau cerdded addas ar gael, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r sefydliad darpariaeth arbennig yn llai na'r pellter a nodir.

Ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw ofynion i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer y dysgwyr canlynol:

- dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol statudol – mae hyn yn cynnwys disgyblion Ysgolion Meithrin a disgyblion Ôl-16;
- disgyblion nad ydynt yn mynychu eu hysgol addas agosaf.

Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod lleol yn darparu cludiant am ddim **yn ôl disgresiwn** ar gyfer y canlynol:

- disgyblion sy'n mynychu ysgolion meithrin (3-4 oed) ac sy'n byw 1.5 milltir neu fwy o'u hysgol addas agosaf, neu pan na fo llwybrau cerdded addas ar gael, hyd yn oes os yw'r pellter yn llai na'r pellter a nodir;
- disgyblion ôl-16 (16-18 oed) sy'n byw dros dair milltir o'u hysgol addas agosaf (chweched dosbarth) neu'r coleg agosaf sy'n darparu'r cwrs y dymunant ei astudio, ac sy'n astudio'u cwrs cyntaf o astudiaeth amser llawn.
- dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol wirfoddol a gynorthwyir (ffydd) agosaf, pan fodlonir y meini prawf o ran pellter – sef dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran cynradd a thair milltir ar gyfer disgyblion oedran uwchradd.
- dysgwyr sy'n mynychu eu hysgol cyfrwng Cymraeg agosaf, pan fodlonir y meini prawf o ran pellter – sef dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran cynradd a thair milltir ar gyfer disgyblion oedran uwchradd.
- Yn achos disgyblion sy'n frodyr neu'n chwiorydd i ddisgyblion cymwys ar y pellteroedd blaenorol (sef 1.5 milltir ar gyfer disgyblion oedran cynradd a dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran uwchradd) cyn i'r polisi newid ym mis Medi 2016, ac sy'n mynychu'r un ysgol, maent hwythau hefyd yn cael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol dan yr un pellteroedd.
- Yn achos disgyblion sydd eisoes yn cael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ar y pellteroedd blaenorol (sef 1.5 milltir ar gyfer disgyblion oedran cynradd a dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran uwchradd) cyn i'r polisi newid ym mis Medi 2016, maent yn parhau i elwa ar gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol dan y pellteroedd blaenorol. Bydd y trefniant hwn yn parhau hyd nes y byddant yn gadael yr ysgol, yn newid ysgol neu'n pontio o un cam addysg i'r llall, er enghraifft symud o addysg gynradd i addysg uwchradd.

## Teithio llesol

Rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr roi sylw dyledus i'r Cynllun Gweithredu Teithiol Llesol ar gyfer Cymru a luniwyd gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â Deddf Teithiol Llesol (Cymru) 2013. Nod y cynllun gweithredu yw mynd i'r afael â thagfeydd ac annog pobl i gerdded a beicio'n amlach. Mae'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol yn anelu at bennu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd i annog ychwaneg o bobl i gerdded a beicio. Y gobaith yw y bydd hyn nid yn unig yn gwella iechyd ein pobl ifanc, ond y bydd hefyd yn gwella iechyd a llesiant y bobl hynny sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

## Beth fydd yn digwydd os na fwrir ymlaen â'r newid hwn?

Mae'r awdurdod lleol yn ymfalchïo yn y gwasanaethau a ddarperir i'w ddinasyddion ac mae'n dymuno parhau i wneud cymaint â phosibl i gynorthwyo teuluoedd yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni. Ond mae'r arbedion sy'n gysylltiedig â'r cynigion canlynol yn angenrheidiol, oherwydd bydd y pwysau ariannol dros y pedair blynedd nesaf yn sylweddol ac yn ddigyffelyb. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau teithio gan ddysgwyr a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ymhlith y rhai mwyaf hael yng Nghymru.

## Y broses ymgynghori

Wrth ystyried unrhyw newid, rhan bwysig o'r broses yw pwyso a mesur barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Diben y ddogfen ymgynghori hon, felly, yw nodi'r newidiadau **arfaethedig**. Lluniwyd y ddogfen hon i roi gwybodaeth i randdeiliaid am y cynigion newydd, er mwyn rhoi cyfle iddynt ddweud eu dweud.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr holl sylwadau'n cael eu cyflwyno gerbron Cabinet yr awdurdod lleol a bydd aelodau'r Cabinet yn ystyried yr holl safbwyntiau a fynegwyd wrth iddynt wneud unrhyw benderfyniad.

Os penderfynir rhoi'r cynigion ar waith, byddant yn dod i rym ar **1 Medi 2025**.

Os penderfynir peidio â bwrw ymlaen ag unrhyw un o'r cynigion, efallai y byddwn yn mynd ar drywydd cynnig arall.

Yn y tabl isod, nodir amserlen yr ymgynghoriad:

| Beth | Pryd |
|---|---|
| Dechrau'r ymgynghoriad | **10 Ebrill 2024** |
| Diwedd yr ymgynghoriad | **3 Gorffennaf 2024** |
| Y dyddiad arfaethedig ar gyfer gweithredu'r polisi newydd | **1 Medi 2025** |

**(Sylwer: ni fyddwn yn ystyried ymatebion a dderbynnir ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben)**

## Â phwy y byddwn yn ymgynghori

- Y cyhoedd
- Dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr
- Ysgolion a cholegau
- Gyrfa Cymru
- RhAG
- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau esgobaethol
- Cynghorwyr
- Aelodau Rhanbarthol o'r Senedd

- Aelodau Seneddol Lleol
- Prif Weinidog Cymru
- Cynghorau tref a chymuned
- Cynghorau cyfagos
- Estyn
- Cyrff llywodraethu ysgolion
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg
- Fforwm Derbyniadau Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr
- Fforwm Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb Pen-y-bont ar Ogwr
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu
- Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

## Sut i ymateb

Mae'r awdurdod lleol yn gofyn i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ateb y cwestiynau a chyflwyno'u barn a'u safbwyntiau trwy gyfrwng arolwg ar-lein. Bydd modd i'r awdurdod lleol ddarparu copïau papur o'r arolwg a hefyd bydd modd cael yr arolwg mewn fformatau hygyrch. Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad e-bost consultation@bridgend.gov.uk neu ffoniwch (01656) 642617.

Hefyd, gallwch ymateb trwy anfon ffurflenni arolwg papur i'r cyfeiriad canlynol:

**Trwy'r post:** Cyfathrebu, Marchnata ac Ymgysylltu,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr,
Raven's Court, Adain 3,
Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4AP

Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Os penderfynir peidio â bwrw ymlaen, bydd y cynnig hwn yn dod i ben ac efallai y byddwn yn mynd ar drywydd cynnig arall.

Os bydd y Cabinet yn derbyn unrhyw un o'r cynigion, bydd y newid(iadau) cynharaf yn dod i rym ar 1 Medi 2025.

## Digwyddiadau

Yn achos yr ymgyngoreion hynny sy'n dymuno gofyn cwestiynau ynglŷn â'r polisi newydd arfaethedig, bydd digwyddiadau ymgynghori 'galw heibio' yn cael eu cynnal. **Rhaid** ichi drefnu i fynychu'r digwyddiadau hyn **erbyn 18 Mai 2024 fan hwyraf**, naill ai trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol neu trwy anfon e-bost i'r cyfeiriad consultation@bridgend.gov.uk neu ffonio (01656) 643664.

Mae'n bosibl y bydd y dyddiadau hyn yn newid. Bydd y bobl sydd wedi cofrestru i'w mynychu yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

| Lleoliad | Amser | Dyddiad |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Maesteg | 18:00 | 23/05/2024 |
| Ysgol Gyfun Pen-coed | 18:00 | 10/06/2024 |
| Ysgol Gynradd Porthcawl | 18:00 | 14/06/2024 |
| Coleg Penybont, Heol y Bont-faen | 18:00 | 20/06/2024 |

## Y Cynigion

| Cynnig 1 |
|---|
| Cael gwared â chludiant etifeddol ar gyfer pob dysgwr a all elwa ar lwybr cerdded (diogel) penodol y gellir ei ddefnyddio i gerdded i'r ysgol, fel ein bod yn cyd-fynd â'r pellteroedd statudol (sef dwy filltir ar gyfer disgyblion oedran cynradd a thair milltir ar gyfer disgyblion oedran uwchradd). |

Yn achos disgyblion sy'n cael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ar hyn o bryd, er eu bod yn byw yn nes at yr ysgol na'r pellteroedd statudol (sef 2 filltir ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd a 3 milltir ar gyfer disgyblion uwchradd), a lle mae'r awdurdod lleol wedi pennu bod llwybr cerdded ar gael, o fis Medi 2025 byddai'r ddarpariaeth hon yn cael ei dileu.

| Cynnig 2 |
|---|
| Cael gwared â'r elfen 'brodyr a chwiorydd' a'r elfen 'eisoes yn derbyn' ar gyfer disgyblion. |

Yn achos disgyblion y mae eu brodyr neu eu chwiorydd wedi trosglwyddo'r cymhwystra haelach iddynt dan y pellteroedd a bennir yn y polisi blaenorol (sef 1.5 milltir ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd a 2 filltir ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd), byddent yn colli'r cymhwystra hwn o fis Medi 2025. Dim ond pe baent yn byw dros 2 filltir i ffwrdd (ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd) neu 3 milltir i ffwrdd (ar gyfer disgyblion uwchradd), a phe na bai llwybr cerdded ar gael i'r ysgol, y byddent yn gymwys i gael cludiant am ddim.

| Cynnig 3 |
|---|
| Cael gwared â'r holl gludiant ar gyfer disgyblion Ysgolion Meithrin. |

Nid yw cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn elfen statudol i ddisgyblion Ysgolion Meithrin. Mae'r awdurdod lleol yn darparu'r cludiant hwn yn ôl ei ddisgresiwn. Ar hyn o bryd, darperir cludiant i Ysgolion Meithrin ar gyfer disgyblion sy'n byw dros 1.5 milltir o'u hysgol addas agosaf.

Mae'r cynnig cyfredol yn ceisio cael gwared â'r disgresiwn hwn, o gofio nad yw addysg feithrin yn statudol. Serch hynny, mae'n bwysig nodi dyletswydd yr awdurdod lleol i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ffydd. Felly, yn achos disgyblion Ysgolion Meithrin sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion ffydd, cynigir y dylid cadw'r ddarpariaeth hon.

| Cynnig 4 |
|---|
| Cael gwared â chludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16 |

Nid oes gennym unrhyw ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant am ddim i ysgolion neu golegau ar gyfer dysgwyr Ôl-16. Mae disgyblion sy'n mynychu dosbarthiadau chwech mewn ysgolion uwchradd yn elwa ar gludiant rhwng y cartref a'u hysgol addas agosaf, dan yr un meini prawf pellter â disgyblion o oedran ysgol statudol (hynny yw, mae dysgwyr sy'n byw dros 3 milltir o'u hysgol addas agosaf (dalgylch) yn cael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol).

Yn yr un modd, mae dysgwyr sy’n mynychu colegau addysg bellach yn cael cludiant am ddim rhwng y cartref a’r coleg agosaf sy’n cynnig y cwrs cyntaf y dymunant ei astudio fel astudiaeth amser llawn os ydynt yn byw dros 3 milltir o’r coleg.

Cynigir, felly, y dylid cael gwared â’r ddarpariaeth hon. Ond gan gydnabod yr effaith anghymesur y byddai cynnig o’r fath yn ei chael ar addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ffydd, nid yw’r cynnig hwn yn berthnasol i’r disgyblion hynny sy’n mynychu dosbarthiadau chwech mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ac ysgolion uwchradd ffydd.

### Cynnig 5

Yn achos rhieni/gofalwyr disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, cynnig ‘cyllideb teithio’ iddynt, gan gynnig lwfans milltiroedd o 45c y filltir.

Gan fod rhai disgyblion ag anghenion cymhleth iawn, yn enwedig y rhai hynny â chyflyrau meddygol, mae hi wedi mynd yn fwyfwy anodd i’r awdurdod lleol ddod o hyd i gludiant addas ar eu cyfer.

Pe bai’r cynnig hwn yn cael ei roi ar waith, byddai rhieni/gofalwyr disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cynnig lwfans milltiroedd o 45c y filltir – sef y gyfradd filltiroedd a bennir gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar hyn o bryd – ar gyfer teithio yn ôl a blaen i’r ysgol (ar gyfer teithiau hyd at 10,000 o filltiroedd).

Byddai’r cynnig hwn yn berthnasol i bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol sy’n defnyddio minibysiau a thacsis arbennig, ni waeth pa mor debygol yw hi y byddai’r cynnig hwn yn arwain at arbedion i’r awdurdod lleol.

Mae’n bwysig nodi y byddai’n rhaid i’r rhieni/gofalwyr sy’n dymuno derbyn y cynnig hwn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau o ran treth bersonol.

## Crynodeb o’r cynigion

Yn y tabl isod, dangosir enghreifftiau o oblygiadau’r newidiadau arfaethedig pe baent yn cael eu cymeradwyo:

| **Cludiant ar gyfer disgyblion/dysgwyr Ôl-16** | | |
|---|---|---|
| **Math o ddisgybl/dysgwr** | **Y trefniant presennol** | **Y trefniant arfaethedig** (o fis Medi 2025) |
| **Dysgwyr ôl-16** (cyfrwng Saesneg)<br>sy’n mynychu Coleg Penybont neu’r coleg agosaf sy’n cynnig y cwrs cyntaf o astudiaeth amser llawn. | Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a’r coleg os yw’r dysgwr yn byw dros dair milltir o’r coleg neu pan na fo llwybr cerdded ar gael. Caiff ei ddarparu fel arfer trwy roi pàs bws gwasanaeth cyhoeddus i’r dysgwr. | Ni fyddai cludiant rhwng y cartref a’r coleg yn cael ei ddarparu. |
| **Dysgwyr ôl-16** (cyfrwng Saesneg)<br>sy’n mynychu’r chweched dosbarth yn:<br>• Ysgol Brynteg<br>• Ysgol Gyfun Pen-coed<br>• Ysgol Gyfun Cynffig<br>• Ysgol Gyfun Porthcawl<br>• Coleg Cymunedol y Dderwen<br>• Ysgol Maesteg<br>• Ysgol Gyfun Bryntirion | Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a’r ysgol os yw’r dysgwr yn byw dros dair milltir o’r ysgol neu pan na fo llwybr cerdded ar gael.<br><br>Caiff ei ddarparu fel arfer trwy gyfrwng tacsis, minibysiau neu fysiau ysgol dan gontract. | Ni fyddai cludiant rhwng y cartref a’r ysgol yn cael ei ddarparu. |
| **Dysgwyr ôl-16** (cyfrwng Cymraeg)<br>sy’n mynychu’r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a’r ysgol os yw’r dysgwr yn byw dros dair milltir o’r ysgol neu pan na fo llwybr cerdded ar gael. | Dim newid. |
| **Dysgwyr ôl-16** (addysg ffydd)<br>sy’n mynychu’r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath neu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf. | Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a’r ysgol os yw’r dysgwr yn byw dros dair milltir o’r ysgol neu pan na fo llwybr cerdded ar gael. | Dim newid. |

| Cludiant ar gyfer disgyblion/dysgwyr Ôl-16 | | |
|---|---|---|
| **Math o ddisgybl/dysgwr** | **Y trefniant presennol** | **Y trefniant arfaethedig** (o fis Medi 2025) |
| **Dysgwyr ôl-16** ag anghenion dysgu ychwanegol mewn darpariaeth arbenigol | Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os yw'r dysgwr yn byw dros dair milltir o'r ysgol neu pan na fo llwybr cerdded ar gael.<br>Hefyd, darperir cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol ar sail anghenion y dysgwr. | Byddai cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei ddarparu yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol ar ôl asesu anghenion y dysgwr. |
| **Dysgwyr ôl-16** ag anghenion dysgu ychwanegol heb fod mewn darpariaeth arbenigol | Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os yw'r dysgwr yn byw dros dair milltir o'r ysgol neu pan na fo llwybr cerdded ar gael. | Byddai cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei ddarparu yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol ar ôl asesu anghenion y dysgwr. |

| Cludiant i'r ysgol ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd | | |
|---|---|---|
| **Math o ddisgybl/dysgwr** | **Y trefniant presennol** | **Y trefniant arfaethedig** (o fis Medi 2025) |
| **Disgyblion ysgolion uwchradd** (cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg ac addysg ffydd)<br>11-16 oed<br>Maent yn mynychu ysgol uwchradd, sef eu hysgol addas agosaf, ac maent yn byw dros dair milltir o'r ysgol neu nid oes llwybr cerdded ar gael. | Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol.<br>Darperir cludiant am ddim i frodyr a chwiorydd disgyblion a oedd yn gymwys yn y gorffennol dan y Polisi Teithio gan Ddysgwyr blaenorol i gael cludiant am ddim os oeddynt yn byw dros ddwy filltir o'u hysgol addas agosaf. | Cael gwared â'r 'rheol brodyr a chwiorydd' er mwyn sicrhau y byddai pob disgybl yn gydradd o ran cymhwystra (hynny yw, pan fônt yn byw dros dair milltir o'u hysgol addas agosaf). |

| **Cludiant i'r ysgol ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd** | | |
|---|---|---|
| **Math o ddysgwr** | **Y trefniant presennol** | **Y trefniant arfaethedig**<br>(o fis Medi 2025) |
| **Disgyblion ysgolion cynradd**<br>(cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg ac addysg ffydd)<br><br>5-11 oed<br><br>Maent yn mynychu ysgol gynradd, sef eu hysgol addas agosaf, ac maent yn byw dros ddwy filltir o'r ysgol neu nid oes llwybr cerdded ar gael. | Darperir cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.<br><br>Darperir cludiant am ddim i frodyr a chwiorydd disgyblion a oedd yn gymwys yn y gorffennol dan y Polisi Teithio gan Ddysgwyr blaenorol i gael cludiant am ddim os oeddynt yn byw dros 1.5 milltir o'u hysgol addas agosaf. | Cael gwared â'r 'rheol brodyr a chwiorydd' er mwyn sicrhau y byddai pob disgybl yn gydradd o ran cymhwystra (hynny yw, pan fônt yn byw dros ddwy filltir o'u hysgol addas agosaf). |

| **Cludiant ar gyfer disgyblion Ysgolion Meithrin** | | |
|---|---|---|
| **Math o ddysgwr** | **Y trefniant presennol** | **Y trefniant arfaethedig**<br>(o fis Medi 2025) |
| **Disgyblion Ysgolion Meithrin**<br>(cyfrwng Saesneg)<br><br>3-4 oed<br><br>Maent yn mynychu ysgol feithrin, sef eu hysgol addas agosaf, ac maent yn byw dros 1.5 milltir o'r ysgol neu nid oes llwybr cerdded ar gael. | Darperir cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. | Ni fyddai cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn cael ei ddarparu. |
| **Disgyblion Ysgolion Meithrin**<br>(cyfrwng Cymraeg ac addysg ffydd)<br><br>3-4 oed<br><br>Maent yn mynychu ysgol feithrin, sef eu hysgol | Darperir cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. | Dim newid. |

| Cludiant ar gyfer disgyblion Ysgolion Meithrin | | |
|---|---|---|
| **Math o ddysgwr** | **Y trefniant presennol** | **Y trefniant arfaethedig** (o fis Medi 2025) |
| addas agosaf, ac maent yn byw dros 1.5 milltir o'r ysgol neu nid oes llwybr cerdded ar gael. | | |